Gweledigaeth newydd pum mlynedd ar gyfer y GIG wedi'i gyhoeddi

Cyhoeddwyd gweledigaeth newydd pum mlynedd ar gyfer y GIG, yn seiliedig ar wasanaethau cymunedol a gosod atal, ansawdd ac eglurder wrth wraidd gofal iechyd gan y Gweinidog Iechyd, Lesley Griffiths. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth

Gweledigaeth newydd pum mlynedd ar gyfer y GIG wedi'i gyhoeddi

Cyhoeddwyd gweledigaeth newydd pum mlynedd ar gyfer y GIG, yn seiliedig ar wasanaethau cymunedol a gosod atal, ansawdd ac eglurder wrth wraidd gofal iechyd gan y Gweinidog Iechyd, Lesley Griffiths.

Mae 'Gyda'n gilydd ar gyfer Iechyd' yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd a'r camau angenrheidiol sy'n rhaid eu cymryd i sicrhau gallu o'r radd flaenaf.
Mae'n rhestru'r ffactorau sy'n gyrru yr angen am ddiwygio, gan gynnwys poblogaeth gynyddol hŷn, anghydraddoldebau iechyd, mwy o bobl â chyflyrau cronig, pwysau staffio meddygol a rhai gwasanaethau arbenigol yn cael eu lledaenu'n rhy denau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd y GIG yn edrych ymhen pum mlynedd, yn seiliedig ar wasanaethau sylfaenol a chymunedol yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu.
Mae prif ymrwymiadau Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd yn cynnwys:
• gwasanaethau sylfaenol a gofal yn y gymuned - megis meddygon teulu, nyrsys cymunedol a fferyllwyr - fydd yn chwarae rhan flaenllaw wrth drawsnewid y ffordd y darperir gofal yn agosach at gartrefi pobl; ffocws ar atal gwaeledd iechyd, i fynd i'r afael â heriau iechyd y cyhoedd megis gordewdra a cyfraddau ysmygu;
• Bydd pob ysbyty cyffredinol dosbarth yn cadw rôl hanfodol, er y bydd rhai o'r gwasanaethau y maent yn darparu ar hyn o bryd yn newid wrth i dechnoleg newydd a thriniaethau olygu fod llai o bobl angen eu derbyn i'r ysbyty;
• Bydd nifer o ganolfannau rhagoriaeth - fel ar gyfer canser neu gofal strôc - yn sicrhau bydd y sgiliau a'r offer gorau ar gael rownd y cloc ar gyfer y cyflyrau mwyaf cymhleth sy'n bygwth bywyd;
• Bydd rhwydweithiau clinigol sy'n cynnwys staff cynradd a staff gwasanaeth cymorth cymunedol yn cefnogi'r ysbytai lleol i ddarparu gofal yn nes at gartref ar ôl rhyddhau cleifion o'r canolfannau arbenigol, a mwy o ddefnydd o delefeddygaeth i gynyddu mynediad 24 / 7 i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig;
• i wella ansawdd, cyhoeddir gwybodaeth am berfformiad y GIG o ran canlyniadau iechyd a boddhad cleifion, gan gynnwys adroddiadau blynyddol ar bob prif faes gwasanaeth; a llunir compact â'r cyhoedd - cytundeb rhwng y GIG a'i chleifion - i sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain.

Wrth siarad ar hyn, dywedodd y Gweinidog, "Bydd y gwasanaethau ysbyty lleol a chymunedol yn cael eu rhoi yn eu lle i alluogi cleifion i barhau â'u adferiad yn nes adref.
"Nid ein gweledigaeth ni yn unig yw yw'r ddogfen hon - mae derbyn gynyddol o'r angen am newid a datblygwyd Gyda'n Gilydd gyfer Iechyd gyda chlinigwyr ac undebau iechyd.
"Ac fel adnabyddir cyfleoedd newydd ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth, bydd y GIG yn esbonio cefndir ac ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol."
Gallwch ddod o hyd i Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd yn:
http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/111101togetheren.pdf